# Fi yw Fi:

## Cynllun Gwers Cyfnod Sylfaen

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

## Cyflwyniad

Mae'r cynlluniau gwersi hyn wedi'u creu fel rhan o brosiect "Fi yw Fi" Comisiynydd Plant Cymru — prosiect sy'n dathlu hunaniaeth.

Yn y gwersi hyn, bydd ffocws ar hawliau penodol plant. Bydd y gwersi'n canolbwyntio ar:

- Erthygl 2: Mae gan bawb yr hawliau hyn, waeth beth yw'r sefyllfa
- Erthygl 8: Mae gen i hawl i hunaniaeth

Gellir defnyddio'r gwersi hyn fel gwersi unigol neu fel rhan o'r Dasg Arbennig a osodwyd i Lysgenhadon.

Cyn i'r wers ddechrau, mae'n bosib y byddwch chi am gyflwyno Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, drwy ddangos llun o'r Comisiynydd i'r plant. Gallwch wneud hyn trwy ddweud

*"Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru. Swydd Sally yw gwneud yn siŵr fod holl blant Cymru'n tyfu i fyny'n teimlo'n hapus, yn iach ac yn ddiogel."*



## Gwers Un: Fy Enw

| Gweithgareddau Gwahaniaethol | Adnoddau a Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **GOFYN**<br><br>Dechreuwch y sesiwn drwy egluro y byddwch chi'n meddwl am enwau a pham eu bod nhw'n bwysig. Dangoswch y cerdyn Symbol i'r dosbarth ar gyfer Erthygl 8 "Mae gen i hawl i hunaniaeth". Eglurwch bod eich enw'n rhan o'ch hunaniaeth.<br><br>Dechreuwch drafodaeth am enwau.<br><br>• Pam fod angen enwau arnon ni?<br>• Pam fod ein henwau'n arbennig?<br>• Ydych chi'n hoffi eich enw ai peidio?<br>• Ydy pobl wedi'ch galw chi yr enw anghywir o'r blaen? Sut mae hynny'n teimlo?<br><br>Ceisiwch gydnabod unrhyw nodweddion tebyg a gwahanol yn eich dosbarth.<br><br>*"Mae ganddon ni ddwy Lowri, un Lowri gydag i ac un Lowry gydag y"* | Mae ein Pecyn Symbolau ar gael yma.<br><br>Os ydych chi eisoes wedi gwneud gwaith ar hawliau gyda'ch dosbarth, mae'n bosib y byddwch chi am gysylltu'r wers hon â hynny. Os nad ydych chi wedi cyflwyno hawliau yn eich dosbarth cyn hyn, mae cynlluniau gwers ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ar gael yma.<br><br>Gallech ddefnyddio'r amser hwn i archwilio diwylliant y disgyblion a seremonïau enwi. |
| **DATBLYGU**<br><br>Defnyddiwch y gweithgareddau canlynol i ddatblygu'r syniad.<br><br>**Gweithgaredd 1: Mae fy enw i'n golygu**<br><br>Gweithiwch gyda'r disgyblion i ddysgu beth yw'r ystyr y tu ôl i'w henwau. Gweithiwch mewn grwpiau bach, a gofynnwch i'r disgyblion arlunio llun sy'n adlewyrchu ystyr eu henw. Dylid gwneud hyn mewn modd sensitif; efallai y byddwch chi am ymchwilio i'w henwau ymlaen llaw. | Os ydych chi'n meddwl bod hynny'n briodol, efallai gall hon fod yn dasg i'w chymryd adre. "Dysgwch sut cawsoch chi'ch enw". Efallai na fyddai hyn yn briodol i bob dosbarth. |

| | |
|---|---|
| **Gweithgaredd 2: Fi a fy enw**<br><br>Rhowch ddarn o bapur A4 i bob disgybl yn y dosbarth gyda'u henw wedi'i nodi arno (mewn ysgrifen swigod).<br><br>Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am eu hunaniaeth. Efallai y byddwch chi am holi cwestiynau i helpu eu gwaith meddwl.<br><br>Gofynnwch i'r disgyblion arlunio eu hatebion yn eu henwau.<br><br>**Gweithgaredd 3: Adeiladu fy enw**<br><br>Gosodwch orsaf i'r disgyblion adeiladu/dargopïo/ysgrifennu eu henwau. | |
| **MYFYRIO**<br><br>Dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd i rannu eu gwaith.<br><br>Cefnogwch y trafodaethau gan sylwi ar y nodweddion cyffredin a gwahanol rhyngddynt.<br><br>Atgoffwch y disgyblion bod eich enw'n rhan o'ch hunaniaeth, a bod gan bawb hawl i hunaniaeth. | |

## Gwers Dau: Dylai pawb gael eu trin yn deg

| Gweithgareddau Gwahaniaethol | Adnoddau a Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **GOFYN**<br><br>Atgoffwch eich dosbarth o'r wers ddiwethaf, drwy ddangos y cerdyn symbol ar gyfer Erthygl 8 a gofyn iddyn nhw os ydyn nhw'n cofio beth drafodwyd.<br><br>Darllenwch stori am hunaniaeth.<br><br>Gofynnwch i'r plant:<br><br>• Pam mae cael enw'n bwysig?<br>• Ydyn ni i gyd yr un peth yn y dosbarth yma?<br>• Ydyn ni i gyd yn edrych yr un peth?<br>• Ydyn ni i gyd yn hoffi'r un pethau?<br><br>Cefnogwch atebion y plant drwy gydnabod nodweddion tebyg a gwahanol yn eich dosbarth.<br><br>Cyflwynwch Erthygl 2 i'ch dosbarth (gan ddefnyddio'r cerdyn symbol), drwy egluro er ein bod ni i gyd yn wahanol, mae ganddon ni i gyd hawl i gael ein trin yn yr un ffordd. | Gallech ddarllen:<br>*Mae gan bawb ei gorff ei hun* gan Jon Burgerman neu wrando ar y stori yma.<br><br>Gallech chwarae gêm i gefnogi'r disgyblion wrth iddyn nhw adnabod pethau tebyg a gwahanol.<br><br>Gallech chwarae gêm syml sefyll i fyny/eistedd i lawr neu gêm barasiwt.<br><br>Er enghraifft:<br><br>Sefwch ar eich traed os oes ganddoch chi wallt brown<br><br>Neu<br><br>Rhedwch o dan y parasiwt os oes ganddoch chi lygaid glas. |
| **DATBLYGU**<br><br>Datblygwch y trafodaethau ymhellach gyda'r gweithgareddau canlynol.<br><br>**Y pethau dw i'n eu hoffi**<br><br>Gan ddefnyddio'r daflen waith "Pethau dw i'n eu hoffi" (Atodiad), gofynnwch i'r disgyblion arlunio eu hunain yn y cylch canol, ac yna arlunio pedwar peth maen nhw'n ei hoffi (un ym mhob cylch).<br><br>Efallai hoffech chi gefnogi gwaith meddwl eich disgyblion drwy ofyn cwestiynau. | |

| | |
|---|---|
| **Fy hunan-bortread**<br><br>Rhowch ddeunyddiau i'r disgyblion arlunio/paentio eu hunan-bortread. Anogwch nhw i ddefnyddio drych neu lun sydd wedi'i argraffu ymlaen llaw o'u hunain.<br><br>**Pôs/jig-so ohona i**<br><br>Byddai'r gweithgaredd hwn yn gweithio orau fel gweithgaredd bwrdd gyda grŵp bach.<br><br>Paratowch bôs o bob plentyn yn eich dosbarth drwy argraffu llun ohonyn nhw a'i dorri i mewn i bôs.<br><br>Rhowch bôs pob plentyn iddyn nhw, ond cadwch un darn o bob pôs a'u rhoi nhw ar fwrdd (i'w gwneud yn haws i ddisgyblion, efallai y byddwch chi am gadw darn o'u hwyneb fel bod modd iddyn nhw adnabod eu hunain).<br><br>Gofynnwch i'r disgyblion gwblhau eu pôs, drwy gymryd tro i ddod i fyny a dewis eu darn terfynol.<br><br>Defnyddiwch y gweithgaredd hwn i gydnabod y pethau tebyg a gwahanol rhyngddynt.<br><br>"Oes, mae dau â gwallt brown hir, beth sy'n gwneud dy wallt di'n wahanol?" | Bydd angen paratoi rhywfaint ar gyfer hyn. |
| **MYFYRIO**<br><br>Rhowch amser i bob disgybl rannu eu gwaith. Gorffennwch y sesiwn drwy ofyn mwy o gwestiynau am hunaniaeth a beth sy'n ein gwneud ni'n unigryw.<br><br>Gallech ofyn:<br><br>• Beth sy'n eich gwneud chi'n unigryw?<br>• Allwch chi ddweud un peth sydd ganddoch chi sydd yr un peth â rhywun arall yn y dosbarth?<br>• A yw'n beth da fod pawb ychydig yn wahanol?<br><br>Atgoffwch y plant eich bod wedi bod yn canolbwyntio ar Erthygl 2 "Mae gan bawb yr hawl hon, waeth beth yw'r sefyllfa" heddiw. | |

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Dw i'n hoffi…

Dw i'n hoffi…

Dyma fi:

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Dw i'n hoffi…

Dw i'n hoffi…